Adroddiad i'r: **Pwyllgor Cynllunio**

Dyddiad y Cyfarfod: **12 Hydref 2016**

Aelod / Swyddog Arweiniol: **Y Cyng. David Smith, Parth y Cyhoedd**

**Angela Loftus, Rheolwr Cynllunio Strategol a Thai**

Awdur yr Adroddiad: **Lara Griffiths, Uwch Swyddog Cynllunio**

Teitl: **Dileu Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol:**

- Rhif 3 Gofal Dydd i Blant
- Rhif 5 Tacsis
- Rhif 21 Ciosgau Manwerthu

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**1.1.** Mae'r adroddiad yn argymell dileu tri o'r Nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol gan eu bod naill ai nawr yn ffeithiol anghywir neu nid yn cael eu defnyddio gan Reoli Datblygu.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Yn dilyn mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Sir Ddinbych ym Mehefin 2013, cafodd yr holl Ganllawiau Cynllunio Atodol presennol eu dwyn ymlaen gyda'r bwriad eu bod yn cael eu hadolygu. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu defnyddio i ddarparu canllawiau pellach i ddatblygwyr, Swyddogion ac Aelodau ac mae'n bwysig eu bod yn gyfoes ac yn berthnasol.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor Cynllunio yn cymeradwyo dileu'r nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol:

- Gofal Dydd i Blant
- Tacsis
- Ciosgau Manwerthu

## 4. Manylion yr Adroddiad

**4.1** Cafodd y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu ym mis Mehefin 2013 ac fe gafodd yr holl nodiadau Canllawiau Cynllunio Atodol presennol eu dwyn ymlaen, a oedd yn eu galluogi i gael eu defnyddio ar y cyd â'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae Canllawiau Cynllunio Atodol newydd a briffiau datblygu safle wedi cael eu paratoi, a'r rhai presennol wedi'u diwygio yn ôl y rhaglen waith y cytunwyd arni, a gyflwynir i Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol ym mhob cyfarfod. Argymhellir dileu'r nodiadau

Canllawiau Cynllunio Atodol uchod yn unol â'r rhaglen waith. Cyflwynwyd yr adroddiad i Grŵp Llywio'r Cynllun Datblygu Lleol ar 20 Gorffennaf 2016 ac argymhellwyd dileu'r tri Chanllaw Cynllunio Atodol. Mae copïau o'r Canllawiau Cynllunio Atodol a argymhellir i'w dileu'n amgaeedig yn Atodiad 1.

**4.2** **Gofal Dydd i Blant –** roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn rhoi cyngor yn gysylltiedig â meithrinfeydd dydd a gwarchod plant. Mae'r rheoliadau a'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â gwarchod plant wedi newid yn sylweddol ers ysgrifennu'r Canllawiau Cynllunio Atodol ac mae'r ddogfen bellach yn ffeithiol anghywir. Rhoddwyd arweiniad gan Lywodraeth Cymru yn ddiweddar sy'n rhoi gwybodaeth gyfredol a thempled i ddarpar warchodwyr plant ei gwblhau wrth gysylltu â'r Awdurdod Cynllunio i gadarnhau a oes angen caniatâd cynllunio. Bwriedir disodli'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol gyda chysylltiadau â'r canllawiau hyn ar wefan Cyngor Sir Ddinbych.

**4.3** **Tacsis –** mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol presennol yn nodi'r polisi sydd y tu allan i gylch gwaith y Canllawiau Cynllunio Atodol. Mae ceisiadau ar gyfer swyddfeydd tacsis bellach yn llai cyffredin ac mae Rheoli Datblygu wedi dweud nad yw'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn cael eu defnyddio. Mae Tacsis a'u canolfannau gweithredu angen trwyddedau, ac mae croeswiriadau rhwng trwyddedu a chynllunio i sicrhau bod caniatâd cywir yn cael ei sicrhau. Ystyrir bod y drefn hon yn ddigon i reoli'r nifer fach iawn o geisiadau a ddaw i law.

**4.4** **Ciosgau Manwerthu –** roedd y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn rhoi arweiniad mewn perthynas â Pholisi CDU TSM 17 Parth Adloniant y Rhyl. Ni chafodd y polisi hwn ei ddwyn ymlaen i'r Cynllun Datblygu Lleol ac nid oes gan y Canllawiau Cynllunio Atodol unrhyw swyddogaeth gyfredol. Ystyrir y gall y polisïau a geir yn y Cynllun Datblygu Lleol ymdrin yn ddigonol ag unrhyw geisiadau am giosgau manwerthu yn y Sir. Mae Rheoli Datblygu wedi adrodd nad oedd unrhyw geisiadau am giosgau manwerthu wedi dod i law ers mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd dileu'r Canllawiau Cynllunio Atodol hyn yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol o "*foderneiddio'r Cyngor i gyflawni effeithlonrwydd a gwella gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid*" drwy sicrhau bod dogfennau canllawiau cynllunio yn gyfredol ac yn berthnasol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni ragwelir y bydd cytuno i ddileu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn creu unrhyw gost ychwanegol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho'r adroddiad Asesiad Effaith ar Les o'r wefan a dylid ei atodi fel atodiad i'r adroddiad

7.1 Mae effeithiau'n debygol o fod yn niwtral neu'n gadarnhaol. Mae dileu nodiadau canllawiau yn debygol o gael effeithiau cyfyngedig iawn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

8.1 Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad ffurfiol, ond cynhaliwyd ymgynghoriad mewnol gyda Grŵp Llywio Aelodau'r Cynllun Datblygu Lleol a swyddogion yn yr Adain Rheoli Datblygu.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

9.1 Ni ragwelir y bydd cytuno i ddileu'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn creu unrhyw gostau ychwanegol, ond os bydd rhai yn codi, mae angen eu cynnwys o fewn cyllidebau refeniw presennol

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

10.1 Mae cael canllawiau sydd wedi dyddio neu'n ffeithiol anghywir yn gallu arwain at bobl yn cyflwyno ceisiadau cynllunio anghywir, a gall niweidio enw da'r Cyngor fel ffynhonnell wybodaeth ddibynadwy.

**11. Pŵer i wneud Penderfyniad**

Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004).